

BLACKWELL, HENRY (1851 - 1928), llyfr-rwymwr, llyfr-werthwr, llyfryddwr, a bywgraffyddwr

Enw: Henry Blackwell

Dyddiad geni: 1851

Dyddiad marw: 1928

Priod: Jennie H. Blackwell (née Davies)

Rhiant: Arabella Blackwell (née Jones)

Rhiant: Richard Blackwell

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llyfr-rwymwr, llyfr-werthwr, llyfryddwr, a bywgraffyddwr

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 2 Awst 1851, mab Richard Blackwell, Northop, ac Arabella (Jones), Rhosesmor, Sir y Fflint. Ceir enw Richard Blackwell yn rhwymo llyfrau yn 10 Chester Street, Lerpwl, a bernir mai yr un ydoedd a thad Henry Blackwell, a oedd yntau, yn 1873, yn dilyn yr unrhyw grefft yn 8 Haliburton Street, Toxteth Park, Lerpwl, a chanddo fusnes hefyd yn 25 South John Street. Bu Henry yn ysgol S. Paul, Lerpwl, am gyfnod.

Symudodd i lawer i newyddiaduron a chyfnodolion: i'r *Oswestry Advertiser* ('Catalogues of Welsh MSS.', Ionawr 1890; 'A collection of Welsh Travels,' Awst 1891); i'r *Old Welsh Chips*, 1888 ('Bibliography of local and county histories relating to Wales and Monmouth' a 'List of Bibles and Testaments in the Welsh Language published in the United States'); i *Bye-Gones, Red Dragon, Y Drych, The Druid, The Cambrian* (sef hwnnw a gyhoeddid yn Cincinnati, Ohio), ac i'r *Old Brecknock Chips*, 1886 ('Brecknockshire authors and books printed in Brecknockshire'). Arfaethai yn 1886 a thrachefn yn 1889 ailgyhoeddi *A History of Wales* (London, 1869) gan **Jane Williams**. Yn Ionawr 1914 dechreuodd gyhoeddi *Cambrian Gleanings: a monthly Magazine on Welsh Matters for the Welsh People the World over, edited and published by Henry Blackwell, University Place, and Tenth Street*, gan gyhoeddi yn rhifyn Mai 'Printers of books in Welsh in the United States.'

Ysgrifennodd lawer i newyddiaduron a chyfnodolion: i'r *Oswestry Advertiser* ('Catalogues of Welsh MSS.', Ionawr 1890; 'A collection of Welsh Travels,' Awst 1891); i'r *Old Welsh Chips*, 1888 ('Bibliography of local and county histories relating to Wales and Monmouth' a 'List of Bibles and Testaments in the Welsh Language published in the United States'); i *Bye-Gones, Red Dragon, Y Drych, The Druid, The Cambrian* (sef hwnnw a gyhoeddid yn Cincinnati, Ohio), ac i'r *Old Brecknock Chips*, 1886 ('Brecknockshire authors and books printed in Brecknockshire'). Arfaethai yn 1886 a thrachefn yn 1889 ailgyhoeddi *A History of Wales* (London, 1869) gan **Jane Williams**. Yn Ionawr 1914 dechreuodd gyhoeddi *Cambrian Gleanings: a monthly Magazine on Welsh Matters for the Welsh People the World over, edited and published by Henry Blackwell, University Place, and Tenth Street*, gan gyhoeddi yn rhifyn Mai 'Printers of books in Welsh in the United States.'

Eithr erys y rhan fwyaf o'i waith bywgraffyddol heb ei gyhoeddi. Y mae y llawysgrifau hyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru: (a) 'A Dictionary of Welsh Biography' (NLW MSS 9251-9277A); (b) 'Cambrian National Bibliography' (NLW MSS 4565D, NLW MS 4566D, NLW MS 4567D, NLW MS 4568D, NLW MS 4569D, NLW MS 4570D); (c) 'A Bibliography of Welsh Bibliography' (NLW MS 6362A); (ch) 'Rhestr o Ffugenwau Cymry' (NLW MS 6361D) - hwn yn cynnwys ffugenwau dros bedair mil o feirdd ac awduron eraill.

Gweithiodd yn ddygn gydag eisteddfodau a chymdeithasau Cymreig yn yr Unol Daleithiau ac ym Mhrydain. Enillodd y wobr yn eisteddfod Efrog Newydd, 1886, am ei lyfryddiaeth, sef NLW MS 9278A yn awr, gwaith yr ychwanegodd ato o bryd i bryd ac a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1942 o dan y teitl *A Bibliography of Welsh Americana*.

Enw ei wraig oedd Jennie H. Davies. Cyhoeddwyd llun ohono yn *Troy Daily Times*, 21 Mawrth 1891. Bu farw 28 Ionawr 1928.

Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Who's who in Wales, 1921

Cambrian Gleanings, 1914

Gore's directory for Liverpool and its environs, 1851, 1873, 1878

Archifau LIGC: NLW MSS 4565D: Henry Blackwell: Index to bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4566D: Henry Blackwell: Bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4567D: Henry Blackwell: Bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4568D: Henry Blackwell: Bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4569D: Henry Blackwell: Bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4570D: Henry Blackwell: Bibliography

Archifau LIGC: NLW MS 4861D: Sir Thomas Marchant Williams's visit to Canada

Archifau LIGC: NLW MSS 4925-31A: John Orlando Parry Manuscripts

Archifau LIGC: NLW MS 5595D: Mountain Ash Male Voice Choir's visit to America

Archifau LIGC: NLW MS 5932A: Miscellanea

Archifau LIGC: NLW MS 5940A: Miss Sparrow's sayings, &c.

Archifau LIGC: NLW MS 6361D: Henry Blackwell: Geiriadur o enwau barddol, &c.

Archifau LIGC:

Archifau LIGC: NLW MS 6362A - Henry Blackwell: Llyfryddiaeth

Archifau LIGC: NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Archifau LIGC: NLW MS 9278A: A Bibliography of Welsh Americana

A Bibliography of Welsh Americana (NLW MS 9278) (Aberystwyth 1942)

portread yn y *Troy Daily Times*, 21 Mawrth 1891

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19304952

Wikidata: Q20733138

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). BLACKWELL, HENRY (1851 - 1928), llyfr-rwymwr, llyfr-werthwr, llyfryddwr, a bywgraffyddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BLAC-HEN-1851>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government